



Cyngor Cymuned Pennal Council

Pwyllgor Nos Fercher 23 ain o Fehefin 2021 yn y ganolfan 7.00.

Croesawodd y cadeirydd Meirion Roberts pawb i'r cyfarfod ar ôl yr holl fisoedd o fethu cyfarfod yn ddiogel.

Cydymdeimlwyd a Hywel Evans a oedd wedi colli eu chware diwedd y flwyddyn

Cyfrifon20-21 Archwilio

Aethpwyd ymlaen i drafod y materion canlynol

Roedd y Cyfrifon wedi cael eu hanfon at Luned Fon Jones archwilwyr mewnlwyr yw adolygu cyn Mehefin 30ain neu fe fyddair Cyngor yn cael eu disgyblu am fod yn hwyr cyn eu cyflwyno .

Prisept Derbyniwyd £6300,00 ar gyfer 21-22 i'w dalu bob chwe mis.

Cylch y Marian ar fun cael eu gorffen taliad wedi eu gwneud I Liz Fenwick aros wan am y garreg rhaid i hon fod yr un maint ar cynllun eu hun,

Prosiect Pennal 2050

Cyflwynodd y clerc adroddiad ir archwilwyr allanol yn dangos sut maer cyngor yn cyd weithio allawer o bethau yn y plwy ar cydweithio sydd yn mynd ymlaen gyda Patneriaeth Pennal 2050 hyn yn dangos ein bod yn cydymffurfio a (Wellbeing of Future Generations Act 2015.) yn ardala a phlwy Pennal

Cyber Security

Trafodwyd a derbyniwyd y Canllawiau ar gyfer canllawiau “ Cyber Security “ a sut I ddiogelu gwybodaeth a peirianaur Cyngor yn y dyfodol

Patneriaeth Pennal

Deallwyd gan Heather Mitchell y Project Manager or batneriaeth bod arian ar ol o brosiect y pentref I alluogu hi I brynnu hysbysfwrdd newydd ir pentref cytunwyd ir syniad yma, a maer maint siap ar defnydd wedi eu benderfynnu ac yn eu dwylo hi nawr. I gael eu harchebu .

Coeden ger Tainewyddion

Derbyniwyd llythyr gan Dylan a Bethan Jones “ Tainewyddion Pennal yn datgan pryder am y goeden sydd ar y pownd ger lle mae ei ceir yn cael eu parcio, deallwn felly bod hon yn gyfrifoldeb ir Cyngor penderfynnwyd cael y goeden wedi eu thorri cyn y gaeaf maen amlwg yn beryg ac fe all greu difrod enfawr.

Drych ar gyfer mynediad Llynbwtri wedi diflannu deallwyd bod y drych wedi torri ac yn racs mae gan y Cyngor un yn sbar fe gaiff eu godi yn fuan.

2 Sedd Newydd ir pentre

Penderfynnwyd archebu dwy sedd Newydd ir pentref un dwy sedd a un tair sedd.

Penderfynnwyd hysbysebu swydd gofalwr y Fynwent yn y Blewyn Glas a Dail Dysynni mor fuan a phosib



Cyngor Cymuned Pennal Council

HGW designs yn falch a diolchgar or gwaith mae Hannah wedi eu gwneud gydar wefan,

Mae Logo Newydd wedi eu chynllunio a greuwyd o gystadleuaeth a roddwyd I blant ysgol Pennal yw chreu ,roedd angen nawr eu chynwys ar wefan y Cyngor

Cyllideb2021-22 wedi eu chyflwyno ir Cyngor ac wedi eu derbyn

Cyfarfod Blynnyddol Nid oedd yn bosib cynnal hwn elenni oherwydd canllawiau Covid 19

Diolchwyd I William Rees am llenwir bagiau swnd pan cafwyd llif yn gynnar elenni rheolau gwael gan Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru amhosib cael cyfarwyddyd a help or run mudiad i gyflenwi a ddosbarthu bagiau ir pentref yn ystod y llif rhaid oedd .gofyn wrth William Rees am fil ermwyn talu iddo am y swnd ar bagiau. Diolchwyd iddo am eu help y noson honno.

Binniau Cwn Gofynwyd eto wrth Dewi Owen Cyngorydd Sir lle maer binniau yma rydym wedi gofyn am y rhain ers dros 2 flynnedd maent eu gwir angen byddai yn edrych mewn ir mater.

Rhif 6 Rhys Terras angen atgoffar perchenog Newydd bod yn rhaid bob amser gadael mynedfar fynwent yn glir.

Derbyniwyd cwyn hefyd am y modd maer ffordd yn culhau I ddau gar basio eu gilydd ger mynedfa y Pil ger arhosfa Gogarth byddai Dewi Owen yn cwyno i Cyngor Gwynedd.

Diffibulator Cwrt a Pennal

Archebwyd y rhain trwy Calon Cymru maer partiau sydd angen iw adnewyddi pan fo angen yn ddrud iawn felly yn y dyfodol bydd angen newid y modd medrwn eu archebu neu newid y peiriant yn gyfangwbl

Derbyniwyd cais am arian I gefnogi dau fachgen lleol a oedd yn dringo mynyddoedd (Y tri Pegwn mewn 24 awr) I godi arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru trafodwyd hyn a cynigiodd Hywel Evans rhoi rhodd o £100 eiliwyd hyn gan James Brunton roedd pawb yn gytunPob dymuniad da iddynt y neu menter.